**CYNLLLUN GWEITHREDOL STRATEGOL ANHWYLDERAU SBECTRWM AWTISTAIDD (ASA) AR GYFER CYMRU**

# GWNEUD BYWYD YN WELL I BOBL GYDAG AWTISTIAETH A SYNDROM ASPERGER: EICH HAWL CHI I DDWEUD BETH HOFFECH EI WELD YN DIGWYDD.

## Dogfen Ymgynghorol Plant a Phobl Ifanc

**Cynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru gydag Awtistiaeth a Syndrom Asperger.**

Ceisia Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau fod pob dim a wna ar ran plant a phobl ifanc yn seiliedig ar Hawliau Plentyn Confensiwn Y Cenhedloedd Unedig. Cytundeb yw hwn a arwyddwyd gan oddeutu 200 o wledydd. Mae am i bob plentyn a pherson ifanc gael bywyd hapus ac iach.

Dymuniad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw gwenud cynlluniau arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc gydag Awtistiaeth a Syndrom Asperger. Yn y cynllun, defnyddir y geiriau Anhwylderau Sbectrwm Awtistaidd i ddisgrifio pobl gydag Awtistiaeth a syndrom Asperger.

Dyma restr o bethau mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am wneud dros blant a phobl ifanc gydag awtistiaeth a syndrom Asperger:

- Maent am i bobl fel athrawon, deintyddion, meddygon, nyrsus, yr heddlu a gweithwyr yn y siopau i ddeall mwy am Awtistiaeth a Syndrom Asperger. Maent am i bobl allu eich helpu pan fydd arnoch eu hangen.

- Maent am roi swydd i rywun er mwyn sicrhau fod y gwasanaethau sydd arnoch eu hangen ar gael ar draws Cymru. Gall y gwasanaethau gynnwys ysgolion, colegau, rhywle i weithio, rhywle i fyw, lleoedd i wneud eich hoff bethau ac i gael hwyl.

- Maent am i bawb yn eich ardal sy’n gwybod llawer am Awtistiaeth a Syndrom Asperger, pobl fel athrawon, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion, meddygon a nyrsus, i weithio gyda’i gilydd fel tîm i sicrhau eich bod chi a’ch teulu yn hapus.

- Byddent yn hoffi cael rhywun ymhob ardal i weithredu fel llais ichi a sicrhau eich bod yn byw a dysgu mewn amgylchedd sydd ddim yn eich gwneud i deimlo’n bryderus nac yn ofnus.

- Byddant yn cynhyrchu dogfennau fydd yn dweud wrth bobl sy’n gweithio gyda chi yn yr ysgol sut allan nhw wneud yr ysgol yn well ichi.

- Maent am sicrhau, pan fyddwch yn gadael yr ysgol, bydd help ar gael ichi yn y coleg neu yn eich swydd. Maent yn gwybod fod unrhyw newid yn gallu bod yn frawychus ichi felly maent am wneud yn siwr eich bod yn gwybod yn union beth fydd yn digwydd pan fyddwch yn gorfod gadael yr ysgol.

- Maent am ddarganfod faint yn union o bobl sydd yng Nghymru gydag awtistiaeth a Syndrom Asperger.

# DYWEDWCH WRTH LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU BETH RYDYCH CHI'N FEDDWL O'U CYNLLUNIAU AR EICH CYFER?


**Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am wybod beth rydych chi'n feddwl o'u cynlluniau ar gyfer plant a phobl ifanc gydag Awtistiaeth a Syndrom Asperger.**

**A wnewch chi ateb y cwestiynau yma. Efallai bydd rhaid ichi ofyn i'ch athro neu athrawes, i ffrind neu i aelod o'r teulu i'ch helpu i wneud hyn.**

**Rydw i'n**  **fachgen** ☐  **ferch** ☐





**Rdyw i'n ------- mlwydd oed**




**Enw fy ysgol ydy --------------------**

**Ydych chi am i'r bobl yma wybod mwy am awtistiaeth a Syndrom Asperger:**

| | | **Ydw** | **Nag ydw** |
|---|---|---|---|
| | |  |  |
|  | **Athrawon** | ☐ | ☐ |
|  | **Meddygon** | ☐ | ☐ |
|  | **Nyrsus** | ☐ | ☐ |
|  | **Deintyddion** | ☐ | ☐ |




Yr Heddlu



Gweithwyr mewn Siop

**? Fedrwch chi feddwl am unrhywun arall fyddech chi'n hoffi iddyn nhw wybod mwy am awtistiaeth a Syndrom Asperger?**

**Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am gael rhywun yn gweithio yng Nghymru fydd yn gallu helpu i sicrhau fod pawb yng Nghymru sydd gydag awtistiaeth neu Syndrom Asperger yn cael y gwasanaethau sydd arnynt eu hangen.**


**Ydych chi'n meddwl y byddai'n syniad da i gael rhywun gyda'r swydd i wneud yn siwr fod gennych chi:**

**Ydw**




**Nag ydw**






**Ysgol ble rydych chi'n teimlo'n ddiogel a hapus?**




**Coleg ble gallwch astudio'ch hoff bwnc?**

 **Swydd rydych chi'n ei hoffi a lle mae pobl yn gwybod sut i'ch helpu?**

 **Lle i fyw lle rydych yn teimlo'n hapus a phobl yn gofalu amdanoch?**


 **Rhywle i fynd i gael hwyl?**

Ydy rhai o’r bobl yma’n eich helpu:

| | | Ydyn  | Nag ydyn  |
|---|---|---|---|
|  | Athrawon | ☐ | ☐ |
|  | Gweithiwr Cymdeithasol | ☐ | ☐ |
|  | Seicolegydd | ☐ | ☐ |
|  | Nyrs | ☐ | ☐ |
|  | Seiciatrydd (meddyg) | ☐ | ☐ |




Therapyddion



Deietegwyr


Dywedwch wrthym am bobl eraill sy’n eich helpu



**Ydych chi'n meddwl ei bod yn syniad da i bawb sy'n eich helpu i gyfarfod gyda'i gilydd i siarad am beth sy'n eich gwneud yn hapus?**

**Ydw** ☐ **Nag ydw** ☐



**Hoffech chi fod rhywun yn eich ardal yn cael y swydd o wneud yn siwr fod pawb yn gweithio gyda'i gilydd i wneud bywyd mor hapus ag y gall fod ichi a'ch teulu?**

**Hoffwn** ☐ **Na hoffwn** ☐

 **Mae Llwyodraeth Cynulliad Cymru'n mynd i roi rhestr, i bobl sy'n gweithio mewn ysgolion, o bethau fydd yn gwneud yr ysgol yn le hapus i fod ynddo.**

 **Ydych chi'n meddwl fod hyn yn syniad da?**

**Ydw** ☐ **Nag ydw** ☐

 **Ydych chi'n poeni beth fydd yn digwydd ichi pan fyddwch yn gadael yr ysgol?**

**Ydw** ☐ **Nag ydw** ☐

  **Beth gall pobl wneud i'ch paratoi chi ar gyfer gadael yr ysgol?**

  **Ydych chi'n meddwl ei bod yn syniad da i ddarganfod faint o bobl sy'n byw yng Nghymru gydag awtistiaeth neu Syndrom Asperger**

**Ydw** ☐ **Nag ydw** ☐





**Diolch am ateb y cwestiynau yma. Bydd eich atebion o gymorth mawr i Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth iddynt gynllunio i helpu pobl gydag awtistiaeth a Syndrom Asperger yng Nghymru.**

Autism Cymru

Wales' National Charity for Autism
Elusen Genedlaethol Cymru ar gyfer Awtistiaeth

**Paratowyd y ddogfen hon gan Autism Cymru gydag arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.**

# Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

# Y CYNLLUN GWEITHREDU STRATEGOL I GYMRU AR GYFER ANHWYLDERAU'R SBECTRWM AWTISTIG (ASD)

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yw Dydd Gwener 25 Mai 2007.

Rhaid i'ch sylwadau ddod i law erbyn y dyddiad hwnnw.

Bydd y wybodaeth a ddarperir gennych yn eich ymateb yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, sy'n rhoi hawl i'r cyhoedd weld gwybodaeth a gedwir gan yr Adran. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd y cyhoedd yn gallu gweld eich ymateb chi gan fod eithriadau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth a ddarperir yn gyfrinachol a gwybodaeth y mae Ddeddf Diogelu 1998 yn berthnasol iddi. Cewch ofyn am gyfrinachedd drwy dicio'r blwch a ddarperir, ond dylech nodi na fyddai hyn, na neges e-bost o ddatganiad cyfrinachedd a gynhyrchir yn awtomatig, o reidrwydd yn atal hawl y cyhoedd i weld gwybodaeth.

**Ticiwch yma os hoffech inni gadw'ch ymateb yn gyfrinachol.**

Enw

Sefydliad (os yw'n

berthnasol)
E-bost / rhif ffôn
Cyfeiriad:

Os yw eich ymholiad yn gysylltiedig â'r ymgynghoriad gallwch gysylltu â:

Penelope Davies
Y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn 02920 825660 neu e-bostio: PenelopeAnne.davies@wales.gsi.gov.uk